YSGOL CAER ELEN
(Ysgol Cyfrwng Cymraeg 3-16, Hwlffordd)

Buddsoddiad gwerth £28.1 miliwn mewn ysgol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed newydd yn Hwlffordd, yn lle'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg presennol a sefydlu darpariaeth addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg 11-16 oed i wasanaethu Hwlffordd a'r ardaloedd cyfagos.

Prif resymau'r cynllun a'i fanteision, oedd:

- mynd i'r afael â'r cynnydd yn y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y de, canol a gogledd-orllewin Sir Benfro a byrhau'r amser teithio i ddisgyblion;

- ad-drefnu'r gofod addysgu cynradd ac uwchradd ar un safle, a fydd yn gwella safonau a deilliannau dysgwyr;

- sicrhau darpariaeth addysg ddi-dor o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 6, gan sicrhau dilyniant o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 a pharhad mewn dulliau dysgu ac addysgu trwy gydol y ddarpariaeth gynradd;

- i gynnig model cost-effeithiol ac effeithlon, gan cael gwared ar ddyblygiad diangen, alinio capasiti a galw a chynhyrchu arbedion maint;

- cynnal y ddarpariaeth addysg a'r deilliannau i ddisgyblion yn yr ardal ac adeiladu ar gryfderau Ysgol Gymraeg Glan Cleddau;

- cyfrannu tuag at fodloni gweledigaeth y Cyngor ar gyfer datblygu ac ymestyn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg fel y'i hamlinellir yng Nghynllun Strategol y Cyngor ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg;

- i gyfeirio at bryderon nifer helaeth o rieni bod amseroedd teithio i Ysgol y Preseli yn rhy hir, ac felly yn cael effaith negyddol ar les eu plentyn, ac ar eu gallu i ymuno gyda chlybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol. Felly, er eu bod yn dymuno i'w plentyn ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, roeddent yn dueddol o'u hanfon rhywle arall am y rhesymau hyn;

- gan fod Ysgol Gymraeg Glan Cleddau yn llawn ac yn wynebu her wrth geisio canfod lle i nifer cynyddol o ddisgyblion; bydd yn newid felly yn cyfrannu at gynhwysedd cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd. Bydd hyn yn ei dro yn creu Sylfaen cryf a chynaliadwy ar gyfer tyfu darpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd.

- datblygu amgylchedd ysgol sy'n bodloni gofynion Ysgolion yr 21ain Ganrif;

GWYBODAETH ALLWEDDOL	
LLEOLIAD	Heol Llwynhelyg, Hwlffordd, Sir Benfro
CATEGORI	Cymunedol
YSTOD OEDRAN	3-16
CATEGORI IAITH	Cyfnod cynradd: Cyfrwng Cymraeg Cyfnod uwchradd: Dwyieithog (AB 2A – caiff o leiaf 80% o bynciau, heblaw am Gymraeg a Saesneg, eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i'r holl ddisgyblion. Caiff un neu ddau bwnc eu haddysgu yn Saesneg neu yn y ddwy iaith i rai disgyblion).
CAPASITI	Derbyn – Bl 6: 315 Bl 7 – Bl 11: 600
RHIFAU DERBYN	Derbyn – Bl 6: 45 Bl 7 – Bl 11: 120
NIFER O LLEOEDD MEITHRIN	45
TREFNIADAU DERBYN	Cyngor Sir Penfro fydd yr Awdurdod Derbyn ar gyfer ysgol. Bydd meini prawf polisi derbyn a gordanysgrifio'r Cyngor yn gymwys. Bydd Caer Elen yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw ac ni fydd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dewis naill ai dawn neu allu. Mae ysgolion 3-16 yn cael eu hystyried yn "ysgolion canol" yn ôl Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru. Felly, byddai'r math hwn o fodel yn cael nifer derbyn ar gyfer Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 7. Bydd rhaid i ddisgyblion sy'n dechrau yn y Meithrin neu Dderbyn ym Medi 2018 wneud cais i gael eu derbyn yn unol â'r polisi derbyn cyhoeddedig. Ni fydd angen cais am le ym mlwyddyn 7 yr ysgol gan unrhyw blentyn sydd eisoes yn mynychu Blwyddyn 6 yn yr elfen gynradd yr ysgol, gan y byddant yn trosglwyddo'n awtomatig. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i rieni disgyblion Blwyddyn 6 mewn ysgolion eraill (yn cynnwys yr ysgolion cynradd sy'n bwydo i mewn) sy'n dymuno i'w plentyn fynychu Blwyddyn 7 yn yr ysgol newydd i wneud cais yn unol â'r cylch derbyn trosglwyddo i ysgol uwchradd arferol.

	Ni fydd angen unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Glan Cleddau ar adeg y gweithredu gwneud cais am le yn yr ysgol gan y byddent yn trosglwyddo'n awtomatig.
TRAFNIDIAETH YSGOL	Bydd y trefniadau cludiant yn unol â'r gyfraith a pholisi'r Cyngor Sir.

GWYBODAETH YR ADEILADU

PENSAER: Stride Treglown

CONTRACTWR: Willmott Dixon

COST CYFALAF: £28,112,915

DYDDIAD CWBLHAU: Medi 2018

MANYLEBAU'R ADEILAD: Bydd Caer Elen yn adeilad hollol newydd fydd yn hygyrch ac yn cydymffurfio gyda gofynion yr Adran Addysg.

Bydd yr adeilad yn arwain at rannu cyfleusterau cynradd ac uwchradd, ond bydd amserlennu effeithiol yn sicrhau nad ydynt yn cael eu rhannu ar yr un pryd. Bydd grwpiau oedran yn cael eu gwahanu'n briodol er lles diogelwch a rheoli'r cwricwlwm.

Yn ogystal â'r uchod, cynigir bydd yr ysgol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd yn cael eu hystyried yn hwyrddyfodiaid i'r iaith Gymraeg fel rhan o uned iaith ynghlwm a'r ysgol.